# Treuliau tanwydd

25 Mehefin 2021

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 4 Mehefin, pan wnaethoch ofyn,

> *Dear Sir/Madam*
>
> *I would like the following information under the freedom of information act.*
>
> *Total fuel expenses claimed by each AM for the year April 2019 - April 2020.*
>
> *Total fuel expenses claimed by each AM for the year April 2020 - April 2021.*

Mae'r rheolau am yr hyn y mae gan Aelodau o'r Senedd yr hawl i wneud cais amdano i'w cael yn y **'Penderfyniad'**.

Cyhoeddir pob hawliad ar ein **system lwfansau**.

Gellir hawlio treuliau tanwydd pan fydd Aelod o'r Senedd wedi llogi car ac wedi gorfod ei ail-lenwi â thanwydd.

Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth hon ar ein **system lwfansau**, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

i. Dewiswch y blynyddoedd ariannol yr hoffech chwilio amdanynt.
ii. I ddewis Aelod penodol o'r Senedd, cliciwch ar 'DEWIS AELOD' i weld rhestr o Aelodau blaenorol a phresennol, a dewiswch yr Aelod(au) penodol. Os ydych chi am chwilio'r system am yr holl Aelodau, gadewch hwn yn wag.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

iii. O dan 'DEWIS MATH O LWFANS', dewiswch 'Teithio yn y Deyrnas Unedig' a dewiswch:
   - Car llog
   - Car llog - Contract Cynulliad Cenedlaethol Cymru

iv. Dewiswch 'Chwilio'

Pan fydd y canlyniadau i’w gweld, er mwyn canfod y costau tanwydd/petrol, gallwch naill ai agor pob un a gweld a yw 'taliad tanwydd' wedi’i restru yn y Wybodaeth Ychwanegol

neu gallwch glicio ar 


Bydd hyn yn agor taenlen Excel ac oddi yno gallwch chwilio yn y golofn 'Gwybodaeth ychwanegol' i ganfod y costau tanwydd a hawlir.

Os na allwch ddilyn y cyfarwyddiadau hyn, rhowch wybod i mi.

Gan fod y wybodaeth hon ar gael eisoes, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF